# Cofrestru gyda Meddyg Teulu yng Nghymru

Gall unrhyw un yng Nghymru gofrestru gyda Meddyg Teulu. Nid oes angen cyfeiriad sefydlog na dull adnabod i gofrestru a gall unrhyw un sydd wedi'i gofrestru gyda Meddyg Teulu gael presgripsiynau am ddim.

Yr unig ffurflen sydd angen ei chwblhau er mwyn cofrestru yw ffurflen GMS1. Mae hon ar gael mewn unrhyw feddygfa.

Oni bai bod y feddygfa wedi cau ei rhestr neu os ydych yn byw y tu allan i ardal ffiniau'r practis, ni ellir gwrthod eich cofrestru.

Os yw meddygfa eisiau gwrthod eich cofrestru, mae'n rhaid iddi fod â rhesymau da dros wneud hynny. Ni ddylai'r rhesymau hyn fod ag unrhyw beth i'w wneud â hil, rhyw, dosbarth cymdeithasol, oedran, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, edrychiad, anabledd na chyflwr meddygol.

Gall NHS111 roi cyngor ynghylch gwasanaethau lleol, Meddygon Teulu a'u gwasanaethau

Ffoniwch GIG 111 Cymru a siaradwch â Chynghorydd Gwybodaeth Iechyd neu defnyddiwch y gwasanaeth ymholiadau ar-lein 111.wales.nhs.uk

Fel arall, gallwch gysylltu â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn eich rhanbarth a gofyn i siarad â 'Gwasanaethau Contractwyr'. Rhif ffôn 02921 501500